# Bwrdd Pobl Ifanc ar gyfer Newid

## ein huno ni i gyd

# Taflen wybodaeth

### Bwrdd Pobl Ifanc ar gyfer Newid yr NSPCC?

Mae'r Bwrdd Pobl Ifanc ar gyfer Newid yn grŵp amrywiol o 15 o bobl ifanc o bob cwr o'r DU. Maen nhw'n rhannu eu barn a syniadau i roi cyngor i'r NSPCC ar yr hyn sy'n bwysig i blant a phobl ifanc. Maen nhw'n rhannu eu barn a'u syniadau gyda'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau, fel staff ac ymddiriedolwyr yr NSPCC, a gwleidyddion. Maen nhw'n cymryd rhan mewn llawer o brosiectau hwyliog ac yn cael cyfle i deithio ledled y wlad i gymryd rhan mewn digwyddiadau preswyl, cyfarfodydd a gweithdai.



NSPCC

MAE POB PLENTYNDOD WERTH BRWYDRO DROSTO
EVERY CHILDHOOD IS WORTH FIGHTING FOR

# Bwrdd Pobl Ifanc ar gyfer Newid

## Os ydw i'n dod yn aelod, beth fydda i'n gorfod cytuno i'w wneud?

**Fel aelod, byddi di'n:**

- **mynd i sesiynau misol a gweithdai** gyda gweddill y Bwrdd Pobl Ifanc ar gyfer Newid.
- **cael hyfforddiant i ddatblygu llawer o sgiliau pwysig** fel ymgyrchu, siarad yn gyhoeddus a mwy.
- **gweithio gyda'n timau ymgyrchu cenedlaethol a rhanbarthol** i ymgyrchu dros newid.
- **gweithio gyda dau ymddiriedolwr NSPCC newydd sydd o dan 25 oed** i hyrwyddo barn pobl ifanc yng ngwaith yr NSPCC.
- **weithredu ar bynciau sy'n bwysig i ti —** bydd hyn yn golygu cyfarfod a chydweithio mewn grwpiau llai, a gweithio gyda phobl ifanc eraill sydd ddim ar y bwrdd i weld beth yw eu barn.
- **cynrychioli'r Bwrdd Pobl Ifanc ar gyfer Newid** mewn digwyddiadau cyffrous.

**Fel aelod, mae angen i ti:**

- **gytuno** i fod yn aelod o'r Bwrdd Pobl Ifanc ar gyfer Newid am ddwy flynedd, o fis Ionawr 2021 i fis Ionawr 2023.
- **bod ar gael** i fynd i bob cyfarfod ar-lein ac wyneb yn wyneb yn rheolaidd (gan gynnwys hyd at dri digwyddiad preswyl dros benwythnos neu hanner tymor bob blwyddyn).
- **bod yn hapus i rannu dy farn a dy syniadau,** a dweud wrth yr NSPCC beth yw dy farn am yr hyn maen nhw'n ei wneud, a beth gallen nhw fod yn ei wneud yn well i blant a phobl ifanc.
- **bod yn gyffrous am weithio mewn tîm** gyda grŵp o 15 o bobl ifanc eraill o bob cwr o'r DU.
- **bod yn barod i wrando ar eraill** a pharchu barn a allai fod yn wahanol i dy farn di.
- **bod yn barod i roi cynnig ar bethau newydd a chymryd rhan mewn profiadau newydd,** fel mynd i gyfarfodydd gyda phobl sy'n gwneud penderfyniadau yn yr NSPCC.
- **bod â diddordeb mewn cael gwybod beth mae pobl ifanc eraill yn dy ardal di a ledled y wlad yn ei feddwl,** a chydweithio gyda gweddill y Bwrdd Pobl Ifanc ar gyfer Newid i wneud hyn.

Efallai bod hyn yn swnio'n gyffrous dros ben, ond gallai hefyd gynnwys llawer o bethau newydd nad wyt ti wedi'u gwneud o'r blaen – mae hynny'n hollol iawn! Bydd llawer o sesiynau hyfforddi a gweithdai hwyliog i dy helpu i ddysgu pethau newydd, a datblygu dy hyder ar hyd y daith. Hefyd, mae aelodau cyfeillgar ein Tîm Cyfranogiad yma i dy helpu di drwy bob cam o'r daith er mwyn i ti deimlo'n hyderus ac yn barod i gael dy glywed!

## Faint mae'n ei gostio?

Nid yw'n costio dim i ymuno. Bydd yr NSPCC yn talu am gostau teithio, llety a threuliau eraill fel bwyd pan fyddi'n dod i unrhyw ddigwyddiadau a chyfarfodydd wyneb yn wyneb. Bydd yr holl fanylion hyn yn cael eu rhannu â thi a dy riant/gofalwr cyn unrhyw gyfarfodydd neu ddigwyddiadau.

## Rydw i eisiau gwneud cais i'r Bwrdd Pobl Ifanc ar gyfer Newid. Beth sydd angen i mi ei wneud?

Grêt! Y cam cyntaf yw llenwi ffurflen gais er mwyn i ni gael gwybod mwy amdanat ti a pham rwyt ti'n awyddus i gymryd rhan. Mae'r ffurflen ar gael yma **nspcc.org.uk/boardforchange**, a bydd angen i ti ei hanfon atom ni erbyn 11 Ionawr 2021. Bydd angen i ti fod ar gael ar gyfer cyfweliad dros y we gydag un o'n tîm cyfeillgar ar 18, 19, 20 neu 21 Ionawr.

## Beth os bydd angen mwy o help arnaf fi i wneud cais?

Rydyn ni bob amser yma i helpu. Anfona neges at **participationteam@nspcc.org.uk** a gallwn gael sgwrs i wneud yn siŵr dy fod yn cael yr holl gefnogaeth sydd ei hangen arnat ti i wneud cais.

Sylwch, mae ein tîm cyfranogi yn siarad Saesneg yn unig.

@NSPCC 2020. Cymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant. Elusen cofrestrefdig Lloegr a Chymru 216401. Yr Alban SC037717.
Mae'r plant a'r oedolion yn y lluniau yn wirfoddolwyr. Lluniau gan Tom Hull. J20201208.